## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (FFORDD LLANRWST, LLANSANFFRAID GLAN CONWY, CONWY) (GWAHARDD AROS) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw Ffordd Llanrwst yn Llansanffraid Glan Conwy yn Sir Conwy sy'n ymestyn o bwynt 11 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Benarth Court hyd at bwynt 50 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Benarth Court.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn estyn y cyfyngiad gwahardd aros (ar unrhyw adeg) presennol ar y darn o'r A470 o'r enw Ffordd Llanrwst i gyfeiriad y de er mwyn gwella gwelededd tuag ymlaen ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd a gwelededd ar gyfer cerbydau sy'n ymuno â'r gefnffordd o Benarth Court.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 25 Mai 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy, Ffordd Town Ditch, Conwy LL32 8NU. Gellir cael copïau yn rhad ac am ddim hefyd drwy ysgrifennu at y cyfeiriad neu'r cyfeiriad e-bost isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1481766.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1481766, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 15 Mehefin 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST ROAD, LLANSANFFRAID GLAN CONWY, CONWY) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit waiting at any time on the western side of that length of the A470 trunk road known as Llanrwst Road at Llansanffraid Glan Conwy in the County of Conwy that extends from a point 11 metres south of the centre-point of its junction with Benarth Court to a point 50 metres south of the centre-point of its junction with Benarth Court.

The proposed Order will extend the existing prohibition of waiting (at any time) restriction on the length of the A470 known as Llanrwst Road in a southerly direction to improve forward visibility for northbound vehicles and visibility for vehicles emerging from Benarth Court.

During a period of 21 days from 25 May 2022, a copy of the proposed Order, together with a plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre, Town Ditch Rd, Conwy LL32 8NU. Copies may also be obtained free of charge by writing to the address or email address below quoting reference number qA1481766.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1481766, must be sent by email to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 15 June 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y Plan a Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd a/neu gellir eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1481766.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders and/or obtained in larger print free of charge by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1481766.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government